**Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant a Phobl Ifanc**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Dydd Mercher 4 Gorffennaf 2018**

**Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel**

**12.30—13.30**

**Yn bresennol**

Julie Morgan AC - Cadeirydd
David Melding AC - Is-gadeirydd
Llyr Gruffydd AC, Is-Gadeirydd
Catriona Williams OBE - Ysgrifenyddiaeth, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
Gerli Orumaa, Cydlynydd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
Cheryl Martin, Swyddog Datblygu - Tlodi Plant, Plant yng Nghymru

Janine Bennett, Canolfan Huggard
Jonathan Wynne Evans, Prifysgol De Cymru
Marco Gil-Cervantes, Prif Weithredwr, Promo-Cymru
Helen Jones, Swyddog Prosiectau ac Aelodaeth, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
Robin J. Lewis, Uwch Gynghorydd, Swyddfa Vikki Howells AC
Linda Nicklin, Rheolwr Gwasanaeth Cymru a De-orllewin Lloegr, Place2Be
Mia Rees, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru
Fiona Santos, Cydlynydd Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru
Chloe Evans, Cynorthwyydd Gweinyddol Plant yng Nghymru
Helen West, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Menna Thomas, Barnardo's Cymru

**Ymddiheuriadau**

Simon Thomas AC
Nigel Brown, Prif Weithredwr, Cafcass Cymru
Neil McEvoy AC

1. **Croeso a sylwadau agoriadol**

   Dechreuodd Julie Morgan AC drwy groesawu'r grŵp a gwneud cyflwyniadau

2. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Busnes ffurfiol, gan gynnwys ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd**

   Enwebodd y grŵp Julie Morgan AC i fod yn Gadeirydd. Enwebwyd David Melding AC a Llyr Huws Gruffydd AC yn Is-gadeiryddion. Enwebwyd Catriona Williams yn Ysgrifenyddiaeth.

3. **Rhagarweiniad i'r Cyflwyniadau**

   Esboniodd Catriona mai pwrpas y sesiwn oedd rhannu gwybodaeth gyda'r Grŵp Trawsbleidiol o'r maes y mae Plant yng Nghymru yn pryderu'n arbennig amdano ac sy'n hyrwyddo'r farn gonsensws bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn yn gyflym cyn i'r sefyllfa waethygu.

   - Y cyntaf yw codi ymwybyddiaeth o faterion y mae llawer o blant a phobl ifanc wedi eu profi mewn perthynas â sut y cânt eu gweld, yn enwedig ers i Brexit fod yn y newyddion, ond nid dim ond oherwydd y Refferendwm ynglŷn â Brexit.

   - Yr ail yw diweddariad ar effaith Brexit ar blant a phobl ifanc

   - Y trydydd yw rhannu canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru mewn perthynas â barn gweithwyr proffesiynol am dlodi plant. Cynhelir yr arolwg hwn bob dwy flynedd ac mae'n rhoi cipolwg o'r blaenoriaethau cyfredol yn ogystal â thueddiadau dros amser.

   **Gerli Orumaa**, Cydlynydd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig

   **Sean O'Neill,** Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru

   **Cheryl Martin,** Swyddog Datblygu - Tlodi Plant, Plant yng Nghymru

Mae'r cyflwyniadau uchod i'w gweld ar wefan Plant yng Nghymru ar y ddolen ganlynol -

http://www.plantyngnghymru.org.uk/adnoddau-2/grwpiau-trawsbleidiol/

4. **Trafodaeth**

Fe gadeiriodd Julie Morgan AC sesiwn holi ac ateb.

Hysbysodd Llyr Gruffydd AC y grŵp ei fod yn mynychu dadl ar Dlodi ar ôl cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ac yn gobeithio cael ymateb gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod angen i Aelod Cynulliad gymryd perchnogaeth ar y mater hwn.

Eglurodd Julie Morgan pa mor syfrdan oedd hi i glywed am y cynnydd mewn hiliaeth a holodd a fu gostyngiad ers hynny. Tynnodd Gerli Orumaa sylw at y ffaith bod cynnydd sydyn wedi bod mewn hiliaeth a bod Brexit wedi rhoi cyfiawnhad i bobl dros hiliaeth. Mae pobl ifanc wedi cael eu targedu yn fwy ers Brexit ac wedi cael eu gwneud i deimlo nad oes croeso iddynt yn y DU.

Dywedodd Rachel Thomas, Comisiynydd Plant Cymru, wrth y grŵp fod swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig i atal Islamoffobia. Esboniodd Rachel hefyd fod y Swyddfa wedi dechrau gweithio ar brosiect tlodi.

Dywedodd Marco Gil-Cervantes, Promo Cymru, fod ei sefydliad ef wedi cael llawer o alwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd yn gofyn am gyngor ar hiliaeth. Sbaenwr yw Marco ac eglurodd fod hiliaeth wedi effeithio'n bersonol ar ei blant yn yr ysgol; fodd bynnag, mae'r system ysgolion wedi bod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â hyn.

Gofynnwyd cwestiwn a oes mecanwaith i Bwyllgorau'r Cynulliad gydweithio fel cyfangorff yn hytrach na gweithio ar faterion ar wahân. Eglurodd Julie Morgan nad oes pwyllgor cyffredinol.

Catriona Williams - Mae Plant yng Nghymru wedi nodi cydlyniant cymdeithasol fel dechrau ymgyrch pwysig.

Hysbysodd Sean O'Neill y grŵp fod nifer o adroddiadau ac ymgynghoriadau Brexit ar wefan Plant yng Nghymru ac y bydd rhagor yn cael eu cynhyrchu yn yr hydref.

Pwysleisiodd Catriona Williams bwysigrwydd rhoi cyfleoedd i bobl ifanc leisio'u barn gan fod angen i'r broses o roi Brexit ar waith roi sylw i hawliau plant ac nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn wir mewn sawl maes fel yn y GIG a gofal cymdeithasol yn ogystal ag addysgu.

Soniodd Gerli Orumaa am brosiect Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a gynhelir gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion a'r ffaith bod oedolion yn pryderu am ddyfodol plant a phobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y DU. Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn teimlo'n angerddol am y stigma 'ni a nhw' ac yn ceisio mynd i'r afael â'r stereoteip hwn. Eglurodd Gerli hefyd mai pobl sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus sy'n dioddef hiliaeth fwyaf.

Roedd yn rhaid i'r AC adael y cyfarfod i bleidleisio ac felly trosglwyddodd Julie Morgan y gadair i Catriona a aeth ymlaen wedyn i gloi'r cyfarfod trwy ddiolch i bawb a fu'n bresennol.

5. **Diwedd y cyfarfod.**